| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Y Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | 1 Mai 2014 |
| **Teitl** | Penodi Swyddog Monitro |
| **Pwrpas** | I benodi Swyddog Monitro Newydd |
| **Awdur** | Prif Weithredwr – Harry Thomas |
| **Arweinydd Portffolio** | Gofal Cwsmer – Y Cynghorydd Ioan Thomas |

1. Ar yr 11eg o Fawrth eleni, bu i'r Cabinet gymeradwyo adroddiad yn argymell ailstrwythuro strwythur uwch reolaethol y Cyngor. O ganlyniad bydd y newidiadau yn golygu bron i £500,000 o arbedion blynyddol a fydd yn cyfrannu tuag at gyfanswm y targed arbedion ar gyfer y cyfnod 2015/16 - 2017/18.

2. Mae'r pecyn hwn yn golygu dileu'r Adran Democratiaeth a Cyfreithiol ac adleoli gwasanaethau'r adran i rannau eraill o'r Cyngor. Bydd rhan o'r arbedion yn cael eu cyflawni drwy ddileu y swydd Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol sydd hefyd yn cyflawni rôl y Swyddog Monitro. Mae'r penderfyniad yn cael ei weithredu drwy gymeradwyo'r cais i ymddeol yn gynnar gan ddeilydd y swydd bresennol sy'n weithredol o ddiwedd Awst.

3. Mae'n rhaid i'r Cyngor yn awr enwebu swyddog arall i weithredu fel ei Swyddog Monitro. Nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol fod yn rhaid i'r Swyddog Monitro fod yn gyfreithiwr neu bod angen cefndir cyfreithiol. O'm profiad i, fodd bynnag, mae cefndir o'r fath yn ddefnyddiol ar gyfer gweithredu'r rôl yn effeithiol. Mae dyletswyddau statudol y Swyddog Monitro fel a ganlyn:

   (a) Adrodd ar unrhyw gynnig, penderfyniad neu ddiffyg gan yr awdurdod fyddai'n groes i'r gyfraith neu'n arwain at gamweinyddu; a

   (b) Goruchwylio gweithrediad Cod Ymddygiad Aelodau.

4. Mae gan y Cyngor Dirprwy Swyddog Monitro yn barod sydd hefyd yn cyflawni'r rôl o reoli'r Uned Gyfreithiol - sef Iwan Evans. Wedi trafod y mater gyda'r Swyddog Monitro presennol ynghyd â'r Aelodau Cabinet perthnasol, rwyf yn argymell fel Pennaeth Statudol y Gwasanaeth Taledig, bod y Cyngor yn penodi Iwan Evans fel ei Swyddog Monitro nesaf i fod yn effeithiol o'r 1af o Fedi.

5. Rwyf hefyd yn argymell bod Iwan Evans, sydd gyda chryn brofiad yn barod fel Dirprwy Swyddog Monitro, yn cael cefnogaeth drwy ddarparu pecyn datblygu sy'n gyson gyda phenodiadau o'r fath.

6. Os dderbynnir yr argymhelliad hwn, bydd y Swyddog Monitro newydd yn gyfrifol am benodi Dirprwy Swyddog Monitro o'r pwll talentog o ymgeiswyr potensial o fewn yr awdurdod.

7. **ARGYMHELLIAD**

Argymhellir bod y Cyngor yn penodi Iwan Evans fel ei Swyddog Monitro nesaf yn effeithiol o'r 1af o Fedi 2014.